Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu

Llyfr gwaith

Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ddiogelu

Lefel 2, Credyd 1

Cyflwyniad	**2**
Uned diogelu	**3**
Nodiadau llyfr gwaith	**4**
Ymarferion llyfr gwaith	**5-15**
Ymarferion myfyrio	**16**
Nodiadau'r rheolwr llinell	**17**

Fel rhan o'ch rhaglen sefydlu fel gwirfoddolwr / gweithiwr, bydd angen i chi ddangos dealltwriaeth o faterion diogelu sylfaenol drwy gwblhau'r llyfr gwaith hwn. Yna, dylech gyflwyno'r llyfr gwaith i'ch tiwtor i'w asesu. Wedyn, dylech gadw copi oherwydd efallai y bydd rheolwr neu gyflogwr yn y dyfodol am ei weld.

Llofnodwch pan fydd wedi'i gwblhau:	
Dysgwr	
Dyddiad	
Tiwtor	
Dyddiad	

Cyflwyniad

Yn y llyfr gwaith hwn gofynnir i chi gwblhau cyfres o gwestiynau ac ymarferion a fydd yn eich galluogi i gasglu'r dystiolaeth sydd ei hangen i gwblhau uned Hyfforddiant Sylfaenol Cymru Gyfan ar Ddiogelu i wirfoddolwyr / gweithwyr.

Mae'r uned a'r llyfr gwaith yn seiliedig ar y **Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol i Gymru** (y fframwaith). Mae hyn yn golygu os byddwch yn mynd ymlaen i weithio yn y sector gofal cymdeithasol, bydd yn cyfrif fel dysgu achrededig tuag at eich sefydlu.

Os hoffech ddysgu mwy am y fframwaith, ewch i **gofalcymdeithasol.cymru**

Teitl	Y Fframwaith – Rhaglen sefydlu ar ddiogelu ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru
Cyfeiriad	
Lefel	2
Credyd	1

Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	**Meini prawf asesu** Bydd y dysgwr yn gallu:
1. Gwybod ei rôl ei hun mewn perthynas â diogelu oedolion a phlant a phobl ifanc rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod	1.1 Amlinellu'r ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a lleol sy'n gymwys i ddiogelu 1.2 Disgrifio ei gyfrifoldebau ei hun mewn perthynas â diogelu 1.3 Esbonio pam ei bod yn bwysig hysbysu rhywun o unrhyw bryderon am niwed, camdriniaeth neu esgeulustod posibl ar unwaith 1.4 Amlinellu'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd lle bo pryderon parhaus am niwed, camdriniaeth neu esgeulustod 1.5 Esbonio terfynau cyfrinachedd mewn perthynas â diogelu
2. Deall sut y caiff **unigolion** eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod	2.1 Disgrifio sut mae fframweithiau deddfwriaeth yn ategu hawliau unigolion i gael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod 2.2 Disgrifio ffyrdd o weithio sy'n diogelu unigolion rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod
3. Gwybod sut i adnabod gwahanol fathau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod	3.1 Nodi categorïau niwed a chamdriniaeth 3.2 Disgrifio'r arwyddion a'r symptomau sy'n gysylltiedig â niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Canllawiau ar gyfer datblygu trefniadau asesu'r uned (os ydynt yn briodol)	Byddai **unigolion** yn cynnwys oedolion neu blant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Nodiadau llyfr gwaith

Gellir defnyddio'r dudalen hon i gofnodi unrhyw nodiadau yn ystod y sesiwn hyfforddi

Ymarferion llyfr gwaith

Rhaglen sefydlu ar ddiogelu ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru

Adran 1 y llyfr gwaith: Y fframwaith deddfwriaethol a'ch rôl

Mae'n rhaid i bob gwirfoddolwr / gweithiwr ddod yn gyfarwydd â'r gofynion diogelu cyn gynted â phosibl ac adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth dros amser ac wrth i'w rôl ddatblygu.

Yn ystod y camau cyntaf, mae'n rhaid i bob gwirfoddolwr / gweithiwr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o'r fframwaith cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n sail i ddiogelu a gwybod beth yw ystyr cam-drin/niwed a'r arwyddion posibl. Dylai gwirfoddolwyr / gweithwyr hefyd fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i'r unigolyn y maent yn ei gefnogi a sut i hysbysu rhywun o unrhyw bryderon a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn.

Canllawiau ychwanegol:

Yn yr adran isod, atebwch y cwestiynau i ddangos eich dealltwriaeth o ystyr diogelu a'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r polisïau allweddol sy'n gymwys i ddiogelu ar gyfer oedolion a phobl ifanc fel ei gilydd.

1. Beth yw ystyr y term 'diogelu'?

2. Amlinellwch y ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a lleol sy'n gymwys i ddiogelu.

3. Gan feddwl am y fframweithiau deddfwriaeth rydych wedi'u hamlinellu, disgrifiwch sut maent yn ategu hawliau unigolion i gael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

Mae gan wirfoddolwyr / gweithwyr gyfrifoldeb am amddiffyn a diogelu unigolion drwy'r amser. Bydd hyn nid yn unig yn cynnwys hysbysu rhywun o unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ond sicrhau nad yw eu hymddygiad a'u ffyrdd o weithio yn andwyol ac y gallent achosi niwed i unigolion. Cwblhewch y cwestiynau i ddangos eich dealltwriaeth o hyn.

4. Amlinellwch rôl gwirfoddolwyr / gweithwyr o ran diogelu unigolion.

5. Rhowch dair enghraifft o ffyrdd o weithio a fyddai'n diogelu unigolion rhag niwed ac esgeulustod.

6. Rhowch dair enghraifft o gamau gweithredu / ymddygiad gwirfoddolwyr / gweithwyr a allai achosi niwed neu gamdriniaeth.

7. Sut y gallwch sicrhau nad yw eich camau gweithredu / ymddygiad yn cyfrannu at sefyllfaoedd, camau gweithredu neu ymddygiad a allai achosi niwed neu gamdriniaeth?

Gall y wybodaeth a gofnodir yn Adran 1 y llyfr gwaith ddarparu tystiolaeth tuag at yr uned sefydlu 'Rhaglen sefydlu ar ddiogelu ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru' o'r fframwaith.

Canlyniad dysgu 1	Meini prawf asesu 1.1, 1.2
Canlyniad dysgu 2	Meini prawf asesu 2.1, 2.2

Adran 2 y llyfr gwaith – Categorïau camdriniaeth, niwed, esgeulustod

1. Fel gwirfoddolwr / gweithiwr gofal cymdeithasol mae'n rhaid i chi allu adnabod y mathau gwahanol o gamdriniaeth, niwed ac esgeulustod y gallech ddod ar eu traws. Bydd gan bob categori arwyddion cyffredin ac mae'n bwysig bod gweithwyr yn gyfarwydd â'r rhain.

Gan ddefnyddio'r tabl isod:

A: Cadarnhewch y categorïau niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

B: Disgrifiwch yr arwyddion a'r symptomau sy'n gysylltiedig â phob categori niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Canllawiau ychwanegol:

Categori niwed, camdriniaeth ac esgeulustod	Arwyddion a symptomau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

Categori niwed, camdriniaeth ac esgeulustod	Arwyddion a symptomau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod

2. Amlinellwch pam bod rhai unigolion yn debygol o wynebu mwy o risg o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

Pwy allai fod yn gyfrifol am hyn?

Lle y gallai hyn ddigwydd?

Gall y wybodaeth a gofnodir yn Adran 2 y llyfr gwaith ddarparu tystiolaeth tuag at yr uned sefydlu 'Rhaglen sefydlu ar ddiogelu ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru' o'r fframwaith.

Canlyniad dysgu 3 Meini prawf asesu 3.1, 3.2

Adran 3 y llyfr gwaith: Hysbysu am amheuon

Mae'n bwysig bod pob gwirfoddolwr / gweithiwr newydd yn gallu ymateb i achosion a amheuir o gam-drin ac esgeuluso a hysbysu rhywun amdanynt. Ym mhob sefydliad bydd strwythur hysbysu a pholisïau sy'n amlinellu beth y dylech ei wneud a phwy y dylid ei hysbysu am bryderon.

Canllawiau ychwanegol:

Atebwch y cwestiynau isod i ddangos eich dealltwriaeth o sut a pham y dylid hysbysu rhywun am amheuon ar unwaith.

1. Amlinellwch beth y dylech ei wneud os oes gennych amheuaeth resymol fod rhywun yn cael ei niweidio, ei gam-drin neu ei esgeuluso. Pwy y byddech yn ei hysbysu am hyn?

2. Beth y dylid ei gofnodi am eich amheuon?

3. Sut y dylid hysbysu rhywun am amheuon? A phwy y dylid ei hysbysu?

4. Amlinellwch y camau gweithredu y byddech yn eu cymryd pe bai gennych amheuon parhaus am niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

5. Beth y byddech yn ei wneud pe bai unigolyn yn gofyn i chi am beidio â rhannu eich amheuon am ei brofiad o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod?

6. Â phwy y dylech chi rannu eich amheuon? Pwy na ddylech chi rannu eich amheuon â hwy?

Gall y wybodaeth a gofnodir yn Adran 3 y llyfr gwaith ddarparu tystiolaeth tuag at yr uned sefydlu 'Rhaglen sefydlu ar ddiogelu ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru' o'r fframwaith.

Canlyniad dysgu 1 Meini prawf asesu 1.3, 1.4, 1.5

Mae myfyrio yn rhan hanfodol o wirfoddoli / gweithio. Yn y gofod isod, nodwch tri pheth rydych wedi'u dysgu yn sgîl cwblhau'r uned hon a sut y byddwch yn rhoi hyn ar waith.

Gellir defnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn y llyfr gwaith hwn i gyflawni'r uned sefydlu 'Rhaglen sefydlu ar ddiogelu ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru' o'r fframwaith tuag at gyflawni'r canlynol:

Amcan Dysgu 5 o'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol – SCDHSC0024 – Helpu i ddiogelu unigolion

SCDHSC0034 –– Hyrwyddo'r broses o ddiogelu plant a phobl ifanc

SCDHSC0035 – Hyrwyddo'r broses o ddiogelu unigolion

Unedau Diploma y FfCCh Iechyd a Gofal Cymdeithasol CYP M3.3 – Deall sut i ddiogelu lles plant a phobl ifanc

HSC 024 – Egwyddorion amddiffyn a diogelu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Nodiadau'r rheolwr llinell

Dylid defnyddio'r dudalen hon i gofnodi unrhyw drafodaeth bellach â'ch rheolwr llinell neu'ch cydgysylltydd gwirfoddoli.

Nodiadau trafod yr aseswr

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi unrhyw drafodaethau rhyngoch chi a'ch aseswr.

Taflen olrhain

Cymhwyster	
Lefel	
Gwerth y credyd	
Uned	
Dysgwr	

Canlyniad dysgu	Meini prawf asesu	Tystiolaeth					Sicrhau ansawdd allanol
1. Gwybod ei rôl ei hun mewn perthynas â diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod	1.1 Amlinellu'r ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol a lleol sy'n gymwys i ddiogelu						
	1.2 Disgrifio ei gyfrifoldebau ei hun mewn perthynas â diogelu						
	1.3 Esbonio pam ei bod yn bwysig hysbysu rhywun o unrhyw bryderon am niwed, camdriniaeth neu esgeulustod posibl ar unwaith						
	1.4 Amlinellu'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd lle bo pryderon parhaus am niwed, camdriniaeth neu esgeulustod						
	1.5 Esbonio terfynau cyfrinachedd mewn perthynas â diogelu						
2. Deall sut y caiff unigolion eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod	2.1 Disgrifio sut mae fframweithiau deddfwriaeth yn ategu hawliau unigolion i gael eu diogelu rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod						
	2.2 Disgrifio ffyrdd o weithio sy'n diogelu unigolion rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod						
3. Gwybod sut i adnabod gwahanol fathau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod	3.1 Nodi categorïau niwed a chamdriniaeth						
	3.2 Disgrifio'r arwyddion a'r symptomau sy'n gysylltiedig â niwed, camdriniaeth ac esgeulustod						

A = Arsylwi; **E** = Efelychu; C = Cwestiynu; **TB** = Trafodaeth broffesiynol; **CG** = Cynhyrchion gwaith;
T = Tasgau / Prosiectau / Astudiaethau achos; **DCM** = Dysgwr / Cyfrif myfyriol; **TT** = Tystiolaeth tyst;
TA = Tystiolaeth tyst arbenigol; **CDB** = Cydnabod dysgu blaenorol;

Datganiad y dysgwr: Rwy'n cadarnhau bod y dystiolaeth a restrir ar gyfer yr uned hon yn ddilys ac yn gynrychioliad gwirioneddol o'm gwaith fy hun.	
Llofnod y dysgwr:	
Dyddiad:	
Rhif cofrestru / Rhif unigryw dysgwr	

Datganiad yr aseswr: Rwyf yn cadarnhau bod y dysgwr hwn wedi cyflawni holl ofynion yr uned hon gyda'r dystiolaeth wedi'i rhestru. Cafodd yr asesiad ei gynnal o dan yr amodau a'r cyd-destun penodedig, ac mae'n ddilys, yn gywir, yn ddibynadwy, yn gyfoes ac yn ddigonol.	
Llofnod yr aseswr:	
Dyddiad:	

Datganiad y swyddog sicrhau ansawdd mewnol: Rwy'n cadarnhau bod gwaith sampl y dysgwr yn cyrraedd y safonau a benodwyd ar gyfer yr uned hon ac y gellir ei gyflwyno ar gyfer sicrhau ansawdd allanol a / neu ardystiad.	
Llofnod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:	
Dyddiad:	